Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Care at Home Pembrokeshire**

**Squirrel House**
**Parc y Llyn**
**Hwlffordd**
**SA62 5DH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Care at Home Pembrokeshire

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Van Dyk Healthcare (Dragon) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 08 Chwefror 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n defnyddio Care at Home yn gwbl fodlon ar y gofal a'r cymorth a gynigir iddynt.

Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn ac yn deall yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae ganddynt amser i'r bobl ac nid ydynt yn rhuthro wrth eu gwaith, gan olygu bod y bobl yn cael gofal a chymorth unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n llawn cymhelliant, wedi'u hyfforddi'n effeithiol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae hyn, yn ei dro, yn golygu eu bod yn gwerthfawrogi eu gwaith ac yn ei fwynhau.

Maw ansawdd yn sail i werthoedd y gwasanaeth, ac mae trefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn ar waith i fonitro perfformiad ac ansawdd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu. Maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn delio ag unrhyw bryderon yn briodol.

Mae anghenion y bobl yn cael eu diwallu gan weithwyr sy'n llawn cymhelliant i gynnig gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; maent yn garedig ac yn gyfeillgar. Mae'r bobl yn llawn canmoliaeth i'r rheini sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi. Mae'r gweithwyr yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod wedi gwneud penderfyniad da wrth ddewis gweithio i Care at Home.

Mae'r gweithwyr gofal yn ddibynadwy ac yn bwyllog. Os bydd angen mwy o amser ar berson na'r hyn a neilltuwyd ar gyfer ei ymweliad, gall y gweithwyr gofal ddibynnu ar gydweithwyr neu eu rheolwr i roi help llaw.

Mae'r bobl yn cyfrannu at y broses o gynllunio eu gofal. Gofynnir iddynt am eu barn ac mae'r gweithwyr gofal yn deall pwysigrwydd cynnig cymaint o ddewis â phosibl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal da gan y gweithwyr. Dywedodd un wrthym *“the care is very special... they are so good,”* a dywedodd un arall fod y gweithwyr yn “*Good as gold”.* Mae lefel o gysondeb gyda'r gweithwyr yn ymweld â'r bobl ac yn cael eu rhestru ar y rota i weithio yn Squirrel House yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu bod y gweithwyr yn dod i adnabod y bobl ac yn deall yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael amser i'w dreulio gyda'r bobl ac nad ydynt yn cael eu rhuthro. Mae'r nifer cywir o staff yn mynychu pob galwad ac ni fu unrhyw ymweliadau a fethwyd. Dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael digon o amser i deithio rhwng cartrefi'r bobl, a chadarnhaodd y rotas hyn.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu'n effeithiol. Mae'r cynlluniau gofal yn nodi'n glir yr hyn sydd ei angen a sut y caiff hyn ei gynnig. Gall y gweithwyr gofal weld os yw person yn wynebu risg o ddatblygu briwiau ar ei groen. Maent yn deall bod angen iddynt gofnodi a rhoi gwybod am unrhyw bryderon ac maent yn hyderus y byddai'r uwch-aelodau o'r staff a'r rheolwr yn ystyried unrhyw bryderon o ddifrif ac yn mynd i'r afael â nhw'n briodol.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn deall eu bod mewn sefyllfa freintiedig i gael mynd i gartrefi pobl. Maent yn deall y rôl bwysig sydd ganddynt i'w chwarae, nid yn unig o ran sicrhau y caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu, ond hefyd o ran cyfrannau at eu llesiant cyffredinol.

Cedwir cofnodion yn electronig. Mae'r gweithwyr yn teimlo bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel. Maent yn cael amser i ddarllen cofnodion gofal y bobl. Mae gan bob person gofnod manwl o'i hanes personol, ac mae ei anghenion gofal wedi'u nodi'n glir. Pe bai unrhyw elfennau o ofal yn cael eu colli, byddai'r rheolwr yn cael gwybod am hyn, sy'n rhoi tawelwch meddwl ychwanegol i'r bobl.

## Yr Amgylchedd

Gwasanaeth gofal cartref yw hwn ac, felly, nid ystyriwyd yr hyn yn ystod yr arolygiad.

Fodd bynnag, mae'r fflatiau yn Squirrel House yn lân ac mewn cyflwr da, ac mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn fodlon ar y gofal a'r parch y mae'r gweithwyr yn ei ddangos at eu cartrefi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r trefniadau llywodraethu yn gadarn. Anfonwyd holiaduron at y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac mae'r ymatebion a gafwyd yn gwbl gadarnhaol. Nododd un person "*every single carer has been exceptionally helpful*" a nododd un arall "*X and I are delighted with all aspects of care".* Mae hyn yn adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae tystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi cyflawni ei gyfrifoldebau rheoleiddio gan fod nodiadau cynhwysfawr ar gael i'w gweld. Fodd bynnag, nid yw'r rheolwr yn ymwybodol o unrhyw adroddiad o'r fath.

Teimla'r gweithwyr gofal eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac yn ddiogel. Dywedodd y rheolwr nad yw rhai o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf mewn rhai meysydd ac nad yw cymhwysedd y gweithwyr bob amser wedi'i asesu ar ôl iddynt gwblhau elfen ddamcaniaethol hyfforddiant. Mae cymhwysedd rhai o'r gweithwyr wedi'i asesu, a dywedodd eraill fod hyn yn yr arfaeth. Cred y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod y gweithwyr yn fedrus ac wedi'u hyfforddi'n briodol. Dengys y matrics hyfforddiant lefel uchel o gymhwysedd, a lle bo hyfforddiant wedi dyddio, mae sesiynau diweddaru wedi'u trefnu.

Mae'r broses recriwtio yn ddiogel. Dengys ffeiliau bod geirdaon wedi'u casglu a bod y gwiriadau angenrheidiol wedi'u cynnal. Mae'n hawdd defnyddio ffeiliau'r staff.

Dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael sesiynau goruchwylio lle maent yn cael adborth ar eu gwaith. Yn ogystal â sesiynau goruchwylio ffurfiol, mae'r uwch-ofalwyr a'r rheolwr yn arsylwi ar y gweithwyr gofal wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau, ac yn cynnig adborth mwy anffurfiol.

Drwy'r hyfforddiant; y sesiynau goruchwylio; y cymorth gan reolwyr ar ffordd y caiff y rotas eu trefnu fel bod y bobl yn cael yr amser sydd ei angen arnynt, mae'r gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn rhan o dîm. Dywedodd un gweithiwr fod gweithio i Care at Home yn*"definitely a good move"* a dywedodd un arall *"I love it"* wrth ddisgrifio ei waith. At hynny, mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwr, sy'n gyfrifol ac yn gymwynasgar.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/12/2022